

## Rheolwr Polisi

### Gweithio i Colegau Cymru

#### Contract

---

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cynnig contract cyflogaeth parhaol, llawn amser, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf pedwar mis yn foddhaol.

#### Cyflog

---

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn cyflog o £45,419 - £49,262 y flwyddyn, pro rata.

#### Hawl Gwyliau

---

Yr hawl gwyliau blynyddol ar gyfer y rôl hon yw 37 diwrnod, pro rata. Yn ogystal â'r hawl bersonol hon, bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hawl i adael ar 8 gwyliau cyhoeddus ynghyd â diwrnodau consesiynol ychwanegol.

#### Oriau Gwaith

---

Yr oriau dan gontract amser llawn yw 37 awr yr wythnos ac eithrio seibiannau prydau bwyd dyddiol. Bydd yr oriau gwaith o'r fath i ddiwallu anghenion swydd y Rheolwr Polisi.

O bryd i'w gilydd, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fynychu cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae'r sefydliad yn gweithredu polisi TOIL (time off in lieu).

#### Pensiwn

---

Bydd Colegau Cymru yn cyfranu'n fisol i gynllun pensiwn yr ymgeisydd llwyddiannus. Os nad yw'r unigolyn yn cyfrannu tuag at gynllun pensiwn, byddant yn cael ei gofrestru'n awtomatig i gynllun pensiwn gweithle.

#### Cyfnod Rhybudd

---

Mae gofyn am 3 mis o rybudd.

#### Cyfnod Prawf

---

Mae cyfnod prawf o bedwar mis yn berthnasol i'r rôl hon.

## Lleoliad

---

Bydd y rôl yn gyfuniad o weithio gartref ac o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa, wedi'i lleoli yn Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB. Mae parcio am ddim yn ein safle.

Gall y swydd gynnwys rhywfaint o deithio ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol, gan fod angen aros dros nos.

## Eich Gwybodaeth

---

Os byddwch yn dewis gwneud cais am rôl gyda ColegauCymru, bydd angen i chi roi gwybodaeth amdanoch i ni. Efallai y byddwn hefyd yn coladu gwybodaeth amdanoch chi gan drydydd partïon, fel eich cyfeiriadau ac, lle bo'n berthnasol, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar eich addasrwydd ar gyfer y rôl hon ac, os byddwch yn llwyddiannus, i reoli ein contract cyflogaeth gyda chi. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei thrin yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol ar gael yn ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#).